

MAURICE, HENRY (1634 - 1682), 'apostol Brycheiniog'

Enw: Henry Maurice
Dyddiad geni: 1634
Dyddiad marw: 1682
Priod: Elin Maurice (née Glyn)
Rhiant: Griffith Morris
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: 'apostol Brycheiniog'
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

Mab Griffith Morris o Fethlan, plwyf Aberdaron, ac yn berthynas pur agos i [Wyniaid](#) Boduan ac [Edwardiaid](#) Nanhoron. Addysgwyd ef yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Nid oes digon o sicrwydd mai ef oedd yr Henry Morris a ddaeth i'r amlwg yn 1656 fel gŵr a bleidiai symud ysgol Botwnnog i Bwllheli, ond y mae mwy na digon mai ef a benodwyd gan y 'Triers' yn 1658 i fugeilio Pwritaniaid Llannor a Deneio; ef hefyd oedd yr Henry Maurice a gyfleodd eiriau ar ymyl y ddalen yn ail ran [Cannwyll y Cymry](#) a gyhoeddwyd yn niwedd 1659 neu ddechrau 1660, sef geiriau i egluro i bobl y Gogledd ystyr rhai o ymadroddion rhy Ddeheuol y [Ficer Prichard](#). Pan ddaeth yr Adferiad, cydymffurfiodd ag Eglwys Loegr; ym Mawrth 1661 penodwyd ef yn ficer Bromfield ger Llywddlo; ym Mehefin 1668 codwyd ef yn rheithor Church Stretton. Cyn Mehefin 1671, fodd bynnag, digwyddodd y dröedigaeth fawr; ymddihatrodd Maurice o'i urddau eglwysig a daeth yn bregethwr Anghydfurfiol, a hynny gyda llwyr gydymdeimlad ei wraig Elin, unig ferch y Brenhinwr cyndyn Sieffre Glyn o'r Gwynfryn ger Pwllheli. Pan ddaeth rhyddid bychan 1672 o dan yr 'Indulgence,' yr oedd yn byw yn Much Wenlock, a gofynnodd am dair trwydded i bregethu, un yn ei ddeiries hun, un arall yn yr un pentref a thrydedd yn Acton Round. Nid oedd ysbryd na llythrennol yn Declarasïwn yn caniatáu i bregethwr weithio y tu allan i gylch ei drwyddedau, ond aeth Maurice ar daith (Mehefin 1672) i siroedd Trefaldwyn a Maesyfed, ar daith arall ddechrau Awst i sir Frycheiniog, ac yn niwedd yr un mis ar y daith enwog i Llanidloes ei ddyddiau bore, gan bregethu mewn lleoedd heb drwydded ganddynt, annerch tyrfaoedd mewn mynwentydd, a myned mor hy â cheisio pregethu yn eglwysi'r wlad. Yn naturiol ddigon ymwelodd â [John Williams](#) yn Llangian, ac â'r [sgwier Richard Edwards](#) yn Nanhoron. Yn union wedi iddo ddychwelyd i Wenlock, gwahoddwyd ef i fod yn fugail ar eglwys gynnull Annibynwyr Brycheiniog, gyda'i bencadlys (yn ôl pob tebyg) yn Llanelwyr. Yn ystod ei yrfa o 10 mlynedd yn y sir honno datblygodd yn un o bwerau mwyaf grymus yr ail genhedlaeth o Biwritaniaid, fel y prawf y cyfeiriad arbennig ato yn 1673 mewn llythyr oddi wrth yr esgob Lucy at yr archesgob; y nifer mawr (682) o Anghydfurfwr (y rhan fwyaf o lawer yn Annibynwyr) a ymddangosodd yng ngholofnau 'census' 1676; a'r eglwysi gwahanedig o Annibynwyr â'u henwau yn 'Lists' [Dr. John Evans](#) yn 1715 ac ymlaen, a darddodd allan o eglwys fawr y sir. Y mae lle amlwg iddo yn *An Account of the ministers... ejected* Calamy; un o brif ddiddordebau llyfr hanes y [Dr. Thomas Rees](#) o Abertawe ar Anghydfurfiaeth Cymru yw'r dyfyniadau o ddyddiadur Maurice am 1672; iddo ef y gofynnodd un o henuriaid Broadmead ym Mryste am roddi (yn 1675) grynodedd bras o hanes a tharddiad achosion Ymneilltuol Cymru, heb anghofio enwau eu pregethwyr a'u gwahanol swyddogion - llafn o oleuni o ganol tywyllwch dyddiau'r erlid. Rhagfarnau Maurice yn bur amlwg ynddo: Calfin ac Annibynnwr uniongred ydoedd, heb rithyn o gydymdeimlad ag Arminiaid a Chrynwyr. Nid oedd fodd, ychwaith, anghofio ei stremp aristocrataidd, ond graddol larioiddwyd hi gan y grasusau Cristnogol. Bu farw 30 Gorffennaf 1682, yn 48 oed.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 271

Richards, 'Puritan Visitation at Jesus College, Oxford', 90-2, yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1922-3
Calendar of State Papers, Domestic Series, 1656, 252

Lambeth MS 995 (229)

Exchequer First Fruits Certificates, Hereford, files 11-12

Calendar of State Papers, Domestic Series Charles II, E.B. 38A, 210, 243

Broadmead Records (1847, 1865), Add. B, 511-18

Salt MS. 2112 yn llyfrgell William Salt, Stafford 393-5

Edmund Calamy, *An account of the ministers, lecturers, masters, and fellows of colleges and schoolmasters who were ejected or silenced after the Restoration in 1660* (London 1713), vol. II, 567-72

Thomas Rees, *History of Protestant Nonconformity in Wales from its rise in 1633 to the present time* (London 1883), 212-20

Y Cofiadur, 1928, 15-67

T. Richards, *Wales under the Indulgence*, xiii

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

